| | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Medi 2020 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Judith Greenhalgh, Cyngor Sir Ddinbych |
| **Awdur yr Adroddiad** | Shannon Richardson a Nicola Kneale, Cyngor Sir Ddinbych |
| **Teitl** | Cydnerthu Cymunedol - Allgáu Digidol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y cyfleoedd am wella isadeiledd digidol yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Yng nghyfarfod y BGC ym mis Gorffennaf, rhoddwyd ystyriaethau i'r problemau a gynigiwyd, a chytunodd yr aelodau bod angen canolbwyntio ar allgáu digidol a sgiliau digidol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod aelodau'n nodi'r sefyllfa gyfredol o ran Cysylltedd Digidol (Atodiad 1), ynghyd â dadansoddiad o Gryfderau, Cyfyngiadau, Gwendidau a Bygythiadau ar gyfer bob pwnc, ac ystyried y canlynol. Nodwch fod cynnig i oedi'r adroddiad ar Sgiliau Digidol tan gyfarfod Tachwedd, er mwyn ein galluogi i gyflwyno asesiad cynhwysfawr o'r sefyllfa sgiliau digidol.

3.2. Y BGC i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ddiffiniad o 'gymunedau gweledig' gyda BT, fel ein bod yn sicrhau bod cymunedau sydd â'r diffyg mwyaf o gysylltedd yn cael blaenoriaeth ar gyfer uwchraddiadau.

3.3. Y BGC i ystyried cyllid tymor hwy ar gyfer swyddi Swyddog Digidol. Byddai hyn yn cynyddu'r posibilrwydd o roi sylw i gyfran uwch o fannau yn y sir sydd ddim yn cael mynediad at y rhyngrwyd, a fyddai o fudd i'n preswylwyr a hefyd yn cefnogi ein

staff gwledig ein hunain i weithio gartref.

3.4. Mae nifer o eiddo nad ydynt yn cael mynediad at y rhyngrwyd, ar ffin Conwy a Sir Ddinbych, a allai gael budd o gydweithio rhwng y ddwy sir.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. I roi gwybodaeth i'r BGC am y gefnogaeth sydd yn ei lle i wella'r isadeiledd digidol yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Gweler Atodiad 1 am fanylion llawn. Mae'r wybodaeth berthnasol yr ydym wedi seilio ein hargymhellion arni i'w chael isod.

4.2. Mae cyllid ar gael drwy gynllun Talebau Rural Gigabit, sy'n werth £3000 gydag ychwanegiad Llywodraeth Cymru ar gyfer eiddo preswyl, a £7000 os yw busnes (yn cynnwys masnachwyr unigol) yn cael ei redeg oddi yno.

4.3. Mae cyflwyno LLFN yn canolbwyntio ar wella cysylltedd digidol mewn ardaloedd gwledig. Yn Sir Ddinbych, mae hyn wedi cynnwys y Rhyl, Prestatyn a Dinbych, sydd efallai ddim yn gyson â chanfyddiad y BGC o gymunedau gwledig. Rhesymeg BT yw bod ein hardaloedd trefol yn wledig, wrth eu cymharu â Manceinion, er enghraifft.

4.4. Yn Sir Ddinbych, mae galluogi pawb i gael mynediad at fand eang da yn flaenoriaeth gorfforaethol, felly maent wedi buddsoddi mewn swydd Swyddog Digidol (o Chwefror 2020 tan fis Mawrth 2021 hyd yn hyn).

4.5. Mae Conwy wedi bod eisiau penodi Swyddog Digidol fel rhan o'u tîm datblygu gwledig, ond mae hyn wedi'i ohirio oherwydd Covid-19. Gobeithir y bydd Conwy wedi recriwtio swyddog i fod ar waith o Ionawr 2021 tan fis Rhagfyr 2021.

4.6. Mae nifer o eiddo sydd ddim yn cael mynediad at y rhyngrwyd ar ffin Conwy a Sir Ddinbych a allai gael budd o gydweithio rhwng y ddwy sir (gweler y map ym mharagraff 1.1. Atodiad 1).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r prosiect hwn yn rhan o'r flaenoriaeth Cydnerthu Cymunedol ar gyfer y BGC.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amcangyfrifir y byddai dau Swyddog Digidol yn costio oddeutu £60k gydag argostau.

## 7. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

7.1. Ar hyn o bryd, mae pob sir yn cymryd dull ychydig yn wahanol wrth roi sylw i faterion sy'n gysylltiedig ag isadeiledd digidol. Bydd gan bob dull ei fanteision ac anfanteision. Dylai swyddogion digidol gyfathrebu'n rheolaidd i sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu, a bod unrhyw faterion yn cael eu lliniaru.